

## GRIFFITHS, VAVASOR (bu farw 1741), gweinidog ac athro gyda'r Annibynwyr

**Enw:** Vavasor Griffiths

**Dyddiad marw:** 1741

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog ac athro gyda'r Annibynwyr

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg

**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ychydig dros ben o ffeithiau pendant sydd gennym amdano. Y dyddiad sad cyntaf o'i yrfa yw 1711, pan oedd yn academi [Samuel Jones](#) yn Tewkesbury; tystia llythyr (Gibbons, *Memoirs of Isaac Watts*, 346) gan Secker (a ddaeth wedyn yn archesgob Caergaint) fod Griffiths yn ieithydd da, a chwanega 'He seems to be not much under 40.' Digon posibl fod dyfaliad Secker yn ormod; ond ar y llaw arall y mae'r ' 1698 neu 1699 ' a nodir yn gyffredin fel blwyddyn geni Griffiths yn codi anawsterau dirfawr - yn ei wneud, e.e., yn weinidog pan nad oedd ond 16 neu 17 oed. Y mae pob awgrym mai ym mhlwyf Bugeildy (sir Faesyfed) y ganed ef, a gall yn hawdd mai'r Maesgwyn oedd hendref ei deulu. Yn rhestrau'r [Dr. John Evans](#), c. 1715, enwir Vavasor Griffiths yn drydydd o dri gweinidog cynulleidfa (sylweddol) Maesgwyn; ond efallai na urddwyd mohono cyn 1726, oblegid yn y flwyddyn honno (ar ôl gwrthod yn 1725) y mae'r Bwrdd Presbyteraidd yn dechrau talu £6 y flwyddyn iddo fel bugail yr eglwys. Yn y cyfamser (1722, fan ddiweddaraf), yr oedd yn cadw ysgol yn ei d , ysgol waddoledig yr oedd ei hathro i gael £10 y flwyddyn (efallai fwy) allan o rent y tyddyn - wrth gwrs, yr oedd y tyddyn ei hunan hefyd yn help iddo. Yn Chwefror 1733-4 gofynnodd y Bwrdd Presbyteraidd iddo gymryd at academi Caerfyrddin ar ôl marw [Perrott](#), ond gwrthododd, ar sail gwendid iechyd. Eto, y mae'n eglur ei fod eisoes yn cymryd disgyblion h n, i'w hyfforddi at y weinidogaeth - gydag ef yr oedd [Lewis Rees](#), e.e. yn 1734. Yn 1735 bodlonodd Griffiths i gais y Bwrdd, ar yr amod fod yr academi'n cael ei symud, nid, mae'n wir, i'r Maesgwyn (er ei fod ef yn dal i fyw ac i weinidogaethu yno), ond i'r Llwynllwyd yn ymyl y Gelli, a'i chyfuno â'r ysgol a gedwid yno eisoes gan [David Price](#), gweinidog Maesyronnen. Ymunodd y Bwrdd Cynulleidfaol yn y cynllun hwn, gan dalu £5 y flwyddyn yn ychwaneg i Griffiths fel gweinidog Maesgwyn, heblaw'r £10 yr un a dalai'r byrddau iddo fel athro. Yn 1736 neu 1737 symudodd Griffiths i fyw i Chancefield ar odre Talgarth, ond dalai i fugeilio Maesgwyn ac i addysgu yn Llwynllwyd yn ogystal ag yn Chancefield. [Jenkin Jenkins](#) a [Richard Price](#) yw ei ddau ddisgybl mwyaf adnabyddus (y mae'n amheus iawn a fu ef yn athro ar [Howel Harris](#) ac ar [Williams](#) Pantycelyn - tebycach mai [David Price](#) oedd eu hathro hwy); ond nid Griffiths sy'n gyfrifol am Ariaeth y ddeuddyn a nodwyd, oblegid Calfin pendant oedd ef, onid e ni buasai [Edmund Jones](#) mor delynegol yn ei ganmoliaeth iddo. Yr oedd wedi ymddiswyddo o'i Academi cyn 8 Rhagfyr 1740. Bu farw (meddai Llyfr y Cilgwyn, gweler *Cofiadur*, i, 29) yn 1741. Y mae gennym lythyr o'i eiddo at [Howel Harris](#) (T.L. 267, 18 Awst 1740), ac y mae sawl cyfeiriad mawrygol ato yn nyddlyfrau [Harris](#). Diamau mai ef yw'r 'Vavasor Griffiths, Esq.' a adawodd yn ei ewyllys (1741) £20 i ficer a wardeiniaid Bugeildy ([Jonathan Williams](#), *Hist. of Radnorshire*, ail arg., 210) at ddibenion elusennol.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 529, 531

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistaidd Calфинаidd*, xxviii, rhifynnau 3 a 4

G. D. Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (1939), 25-8

Isaac Thomas, '[Y Gronfa Gynulleidfaol ac Annibynwyr Cymru](#)', *Y Cofiadur*, 1958, 25

a'r cyfeiriadau uchod

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734553](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

